23/06/20

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Yn gyntaf, rydym yn gobeithio bod hyn yn dod o hyd i bawb yn ddiogel ac yn iach. Rydym yn prysur agosáu at y dyddiad ailagor rhannol ar gyfer ein hysgol ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu'r rhai sydd wedi cadarnhau eu presenoldeb ar gyfer y dyddiau 'Ailgydio' a 'Dal i fyny'. Yn ogystal, rydym wedi danfon cadarnhad ynghylch pryd y gall y rhai a fydd yn mynychu'r ddarpariaeth hwb ddod. Os na wnaethoch lenwi holiadur, yna yn anffodus ni fyddwn yn gallu derbyn eich plentyn y tymor hwn ac ni fyddwch yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth yr hwb.

Ynghyd ag addysgu'r rhai a fydd yn mynychu'r ysgol, bydd y staff addysgu yn paratoi tasgau ac adnoddau ar gyfer y disgyblion hynny a fydd yn parhau i ddysgu o adref. Bydd y rhain yn cael eu huwchlwytho yn barod ar gyfer bore dydd Llun, fel mae wedi bod lan at nawr.

Fel y gallwch chi werthfawrogi, bydd yr angen i addysgu yn yr ystafell ddosbarth ac o bell yn cael effaith sylweddol ar lwyth gwaith ein hathrawon. Felly o ganlyniad, efallai bydd faint o waith sy'n cael ei osod ar y wefan yn wahanol i'r arfer. Ni allwn sicrhau y bydd staff yn cynnal eu galwadau ffôn rheolaidd i ddisgyblion a theuluoedd. Fodd bynnag, os hoffech chi drafod unrhywbeth neu os ydych chi'n profi unrhyw anawsterau, a allech chi ddefnyddio'r adran 'Cysylltwch â ni' ar wefan yr ysgol i gael cymorth yn hytrach na ffonio'r ysgol yn uniongyrchol.

https://www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk/cym/contact/

Mae ein gallu i ailagor am weddill y tymor hwn yn dibynnu ar lawer o ffactorau. Un o'r prif ffactorau yw'r lefelau staffio cywir. Yn yr amseroedd anrhagweladwy hyn gallai hyn newid ac o ganlyniad gael effaith ar ein gallu i weithredu'n ddiogel. Pe bai hyn yn digwydd, byddwn yn cysylltu â chi ar unwaith trwy Schoop. Sicrhewch eich bod wedi lawrlwytho'r app i'ch ffonau.

Byddwn yn danfon adroddiadau blynyddol eich plentyn / plant ynghyd ag enw eu hathro/wes am y flwyddyn academaidd nesaf cyn gynted â phosibl. Yn ogystal, mae'r staff yn paratoi cyflwyniad i gyflwyno eu hunain a chaniatáu i'ch plentyn ymgyfarwyddo â'u hathro ar gyfer mis Medi.

A allwn ni ddiolch ichi eto am eich amynedd a'ch dealltwriaeth yn ystod y misoedd diwethaf. Er ein bod yn parhau i fod yn ansicr ynghylch pryd y bydd bywyd ysgol 'normal' yn ailddechrau, rydym yn gwybod, gyda'ch cefnogaeth, gallwn addasu a wynebu'r heriau gyda'n gilydd.

Cymerwch ofal a chadwch yn ddiogel.

Yn gywir

Miss Evans a holl staff Ysgol Gymraeg Cwmbrân

23/06/20

Dear Parent / Guardian,

Firstly, we hope that this finds everyone safe and well. We are fast approaching the partial re-opening date for our school and are very much looking forward to welcoming back those who have confirmed their attendance for the 'Check in' and 'Catch-up' days. In addition, we have sent confirmation of when those who will be accessing the hub provision can attend. If you did not complete a questionnaire, then unfortunately we will be unable to accept your child this term and you will be unable to have access to the hub provision.

Along with teaching those who will be attending the school, the teaching staff will be preparing tasks and resources for those pupils who will continue to learn remotely. These will be uploaded ready for Monday morning as per usual.

As you can appreciate, the need to teach in the classroom and remotely will have a significant impact on workload of our staff. Please be mindful that the amount of work provided on the learning platform may now differ to previous months. We cannot guarantee that staff will carry out their regular phone calls to pupils and families. However, if you would like the discuss something or are experiencing any difficulties, please could you use the 'Contact us' section on the school website for assistance rather than telephoning the school directly.

https://www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk/en/contact/

Our ability to re-open for the remainder of this term is dependent on many factors. One of the primary factors being the correct staffing levels. In these unpredictable times this could change and subsequently have an impact on our ability to operate safely. Should this happen, we will contact you immediately via Schoop. Please ensure that you have downloaded the app to your phones.

We will be forwarding your child/children's annual reports, along with notification of their teacher for the next academic year, as soon as possible. In addition, the staff are preparing a presentation to introduce themselves and allow your child to familiarise themselves with their teacher for September.

Can we thank you again for your patience and understanding during the last few months. Although we remain uncertain as to when 'normal' school life will resume, we know that with your support, we can adapt and face any new challenges together.

Please continue to take care and stay safe.

Yours sincerely,

Miss Evans and all the staff at Ysgol Gymraeg Cwmbrân